Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**Teitl:** **Gweithiwr Cymorth Cymunedol x2**

**Lleoliad:** **Opsiynau Cymunedol (lleoliadau amrywiol)**

**Cyfarwyddiaeth:** **Gwasanaethau Oedolion – Gwasanaethau Darparu**

**Rhif y Swydd:** **BG03297 & BG03034**

**Cyflog:** **Gradd 5 (£28,624 - £31,586 pro rata / y flwyddyn)**

**Oriau:** **30 & 22.5**

**Contract:** **Parhaol**

## Crynodeb o'r Swydd

***Byddwch y Gwahaniaeth: Ymunwch â'n Tîm fel Gweithiwr Cymorth Cymunedol!***

Oes gennych angerdd i wella bywydau eraill a chael effaith barhaol yn eich cymuned? Oes gennych chi'r creadigrwydd a'r tosturi i helpu unigolion i fyw bywydau annibynnol a boddhaus? Os ydych chi'n chwilio am rôl ystyrlon sy'n ddeinamig, yn rhoi boddhad, ac sy'n canolbwyntio ar drawsnewid bywydau, does dim angen edrych ymhellach. Rydym yn galw ar unigolion brwdfrydig, llawn empathi i ymuno â'n Tîm Opsiynau Cymunedol fel Gweithiwr Cymorth Cymunedol. Nid swydd yn unig mohoni – dyma gyfle i lunio'r dyfodol ac adeiladu cymunedau mwy disglair.

## Y Rôl

Fel Gweithiwr Cymorth Cymunedol yn y Tîm Opsiynau Cymunedol, byddwch wrth wraidd cenhadaeth i wella bywydau oedolion ag anableddau sy'n dibynnu ar ein gwasanaethau. Byddwch yn chwarae rhan ymarferol wrth greu cynlluniau cymorth wedi'u teilwra sy'n cyd-fynd ag anghenion, talentau a dyheadau unigryw pob unigolyn. Byddwch yn cefnogi oedolion i ailadeiladu hyder, datblygu sgiliau bywyd hanfodol, ac ailgysylltu â'u cymuned trwy weithgareddau hamdden, addysg, a byw'n annibynnol. Nid oes unrhyw ddau ddiwrnod byth yr un fath, gan y byddwch yn gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau – boed yn helpu rhywun i gael profiad gwaith, annog unigolyn i roi cynnig ar hobi newydd, neu ddarparu gofal personol fel yr amlinellir mewn Cynllun Gofal a Chymorth.

Bydd eich rôl hefyd yn cynnwys meithrin perthnasoedd cryf, llawn ymddiriedaeth gyda theuluoedd, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol o asiantaethau eraill i greu ymagwedd sy'n wirioneddol gydweithredol. Chi fydd yr unigolyn y bydd eraill yn galw arno am fewnwelediad ac arweiniad mewn cyfarfodydd adolygu, lle byddwch yn darparu adborth manwl a gwrthrychol i helpu i lunio gofal y dyfodol y bobl rydych yn eu cefnogi. Gwyddom fod cymorth gwych yn seiliedig ar greadigrwydd, hyblygrwydd a'r gallu i fachu ar gyfle, a dyna pam rydym

yn chwilio am rywun a all feddwl yn arloesol a sylwi ar ffyrdd newydd o annog ac ysbrydoli'r rhai o'i gwmpas.

**Amdanoch chi**

Chi yw'r math o unigolyn sy'n goleuo ystafell gyda'ch egni cadarnhaol a'ch angerdd dros helpu eraill. Rydych chi'n credu bod gan bob un botensial heb ei gyffwrdd yn aros i gael ei ryddhau, ac mae gennych chi'r awydd a'r amynedd i fod y sawl sy'n helpu i'w ryddhau. Mae gennych sgiliau cyfathrebu cryf a gallu naturiol i gysylltu â phobl o bob cefndir, gan feithrin ymddiriedaeth a hyder trwy garedigrwydd, parch a phroffesiynoldeb.

Rydych chi'n mwynhau bod yn rhan o dîm, ond rydych chi hefyd yn ddigon hyderus i weithio'n annibynnol pan fo angen. Rydych chi'n gwybod sut i ddelio â sefyllfaoedd anodd ac aros yn dawel dan bwysau, gan ddefnyddio'ch hyfforddiant a'ch greddf i wneud penderfyniadau er budd gorau'r bobl rydych chi'n eu cefnogi. Er bod profiad blaenorol yn werthfawr, eich brwdfrydedd, empathi, a pharodrwydd i dyfu a dysgu sy'n gwneud i chi sefyll allan.

**Amdanon ni**

Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, rydym yn ymfalchïo mewn bod yn sefydliad clòs sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac sy'n ymroddedig i wella bywydau. Mae ein Gwasanaeth Opsiynau Cymunedol wedi ymrwymo i helpu unigolion i ennill annibyniaeth a hunan-barch a chael cyfleoedd newydd.

Rydym hefyd yn cydnabod mai ein gweithwyr yw ein hased mwyaf, a dyna pam rydym yn cynnig amgylchedd gwaith cefnogol a chynhwysol, ynghyd â buddion gwych sydd wedi'u cynllunio i'ch helpu i dyfu a llwyddo:

**Cyflog Cystadleuol:**
Rydym yn gwerthfawrogi eich profiad a'ch arbenigedd ac yn cynnig pecyn cyflog hynod gystadleuol.

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:**
Byddwch yn dawel eich meddwl gyda'n buddion pensiwn rhagorol.

**Dysgu a Datblygu Parhaus:**
Manteisiwch ar gyfleoedd hyfforddi a datblygu i wella'ch gyrfa.

**Gwyliau Blynyddol Hael:**
Manteisiwch ar lwfans gwyliau sylweddol i gefnogi cydbwysedd rhwng eich bywyd a'ch gwaith.

**Amgylchedd Tîm Cefnogol:**
Gweithiwch o fewn diwylliant cydweithredol a chynhwysol sy'n gwerthfawrogi eich cyfraniadau.

**Yn Barod i Wneud Gwahaniaeth Parhaol?**

Os ydych yn barod i gychwyn ar daith lle mae eich gwaith yn cael effaith uniongyrchol ar fywydau pobl, yna byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

Os hoffech gael trafodaeth anffurfiol am y rôl, cysylltwch â:

Tirion Young | 01495 369629 | Tirion.Young@blaenau-gwent.gov.uk

Ar gyfer gwybodaeth am ail-gysylltu cyn-weithwyr, gweler Polisi Cyflog y Cyngor.

**Cynhelir sgrinio cyn-gyflogaeth trylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd gofyn i ddeiliad y swydd gwblhau cais am ddatgeliad cofnodion troseddol.**

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg**

**Dyddiad Cau:** **23.01.2025 – 12am, hanner nos**
**Dyddiad y Cyfweliad:** **I'w gadarnhau**